**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 29 Mawrth 2022 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **Swyddog Cyfrifol:** | Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. |
| **Awdur** | Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau |
| **Teitl yr Eitem:** | Penodi Uwch Grwner Ardal Gogledd Orllewin Cymru |

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

**(a) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi manylion swydd a phersonol ynghyd a threfn benodi ar gyfer swydd Uwch Grwner a threfnu i hysbysebu**

**(b) Sefydlu Panel yn cynnwys y Prif Weithredwr, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phennaeth Adran i'w ddynodi gan y Prif Weithredwr er mwyn tynnu rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr, ac i benodi Uwch Grwneriaid yn ôl yr angen**

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

1. Ymddeolodd Dewi Pritchard Jones y cyn Uwch Grwner ym mis Tachwedd 2020. Penodwyd Kate Sutherland, y Crwner Cynorthwyol ar y pryd, fel Uwch Grwner gweithredol tra'n ystyried priodoldeb uno ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru gydag ardaloedd eraill. Rydym bellach mewn sefyllfa i fwrw ymlaen i benodi Uwch Grwner parhaol. Gallai'r angen godi yn y dyfodol i benodi Uwch Grwner arall. Mae angen sicrhau fod y trefniadau dirprwyedig ar gyfer y broses yn cael eu sefydlu ac yn eglur.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad**

2. Mae Cymru a Lloegr wedi eu rhannu yn ardaloedd crwnerol, ac mewn pob ardal o'r fath, ceir Uwch Grwner ac o leiaf un Crwner Cynorthwyol. Awdurdodau lleol sy'n ariannu'r gwasanaethau unigol, a gan fod Ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys Gwynedd a Môn, ariannir y gwasanaeth ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn. Serch hynny, Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod perthnasol ar gyfer yr ardal, sy'n golygu bod dyletswydd statudol arnom i gwrdd â'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg y gwasanaeth. Yr awdurdod perthnasol sydd hefyd yn gyfrifol am benodi Uwch Grwner a Chrwneriaid Cynorthwyol i'r ardal, er na fyddant yn gyflogedig i'r awdurdod ond yn hytrach yn ddeiliaid swyddi barnwrol annibynnol.

3. Pennir y drefn benodi gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, a gan Ganllawiau'r Prif Grwner. Bydd rhaid i bob penodiad gael ei gymeradwyo gan y Prif Grwner a'r Arglwydd Ganghellor, a bydd angen hefyd i'r Prif Grwner gymeradwyo'r broses benodi sydd i'w dilyn, a'r rhestr fer a dynnir ar gyfer cynnal cyfweliadau.

4. Mae'r Prif Grwner wedi cyhoeddi canllawiau ar benodi crwneriaid (*Nodyn Canllaw 6 y Prif Grwner - Penodi Crwneriaid*). Mae'n nodi ynddynt fod rhaid rhoi ystyriaeth i uno ardal gydag un neu fwy o ardaloedd crwner arall cyn mynd ati benodi Uwch Grwner parhaol newydd.

5. Bellach rydym wedi derbyn ymateb gan y Prif Grwner ar y sefyllfa adolygu . Mae hyn yn deillio o drafodaethau sydd wedi eu cynnal gydag Adran Llysoedd a Thribiwnlysoedd Llywodraeth y DU a Chynghorau Gwynedd a Dinbych (sef yr awdurdod perthnasol ar gyfer Ardal Gogledd Cymru (Dwyrain a Chanolog). Yn deillio o'r trafodaethau yma cafwyd penderfyniad gan y Prif Grwner na fyddai yn chwilio am uno'r ardaloedd Crwner yma ac y dylem felly benodi Uwch Grwner parhaol ar gyfer Ardal Gogledd Orllewin Cymru.

6. Mae angen felly i'r yr awdurdod ffurfio panel i dynnu rhestr fer, i gynnal y cyfweliadau ac i benderfynu ar bwy i'w benodi/phenodi. Mater i'r awdurdod yw cyfansoddiad y panel ond gall y Prif Grwner neu gynrychiolydd fynychu'r cyfweliadau a bydd yn gwneud hynny fel arfer yn achos penodi Uwch Grwner.

7. Bydd y Panel yn cael ei gynghori gan y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a chynrychiolydd y Prif Grwner

8. Ar ôl i'r Panel ddod i'w benderfyniad, rhaid anfon adroddiad at y Prif Grwner (os nad oedd yn bresennol yn y cyfweliadau) yn disgrifio'r broses a ddilynwyd a'r rhesymau dros gynnig yr ymgeisydd / ymgeiswyr llwyddiannus. Bydd rhaid hefyd gofyn am gymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor.

**Barn Cyngor Sir Ynys Môn**

9. Os yw'r Ardal Crwner yn cynnwys mwy nag un awdurdod yna rhaid i'r awdurdod perthnasol ymgynghori gyda'r awdurdod arall cyn penodi Uwch Grwner. Byddwn felly yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn yn y broses fel sy'n briodol.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

Swyddog Monitro – Adroddiad wedi ei baratoi gan y Gwasanaethau Cyfreithiol.